| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **2 Gorffennaf, 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Alan Smith, Pennaeth Datblygu Busnes a Moderneiddio** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Gwella Blynyddol 2013-14** |

---

## 1. Ynglŷn â beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r asesiad blynyddol o ragolygon y Cyngor ar gyfer gwella, a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad yma?

Darparu gwybodaeth ar gyfer Aelodau ynglŷn ag Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) y Cyngor. Gweler Atodiad 1.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi cynnwys yr adroddiad sydd wedi'i atodi a'r cynigion ar gyfer gwella a geir ynddo.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Dan y Mesur Llywodraeth Leol, bob blwyddyn mae Swyddfa Archwilio Cymru'n adolygu cynnydd y Cyngor tuag at gyflawni ei amcanion a'i ragolygon ar gyfer parhau i wella yn y flwyddyn sydd i ddod.

Ar gyfer y flwyddyn 2013-14, mae SAC wedi dod i'r casgliad:

- Bod Sir Ddinbych wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau ym mhob un o'i amcanion blaenoriaeth ar gyfer 2012-13 ond bod gwelliannau pellach yn ofynnol mewn rhai meysydd allweddol;

- Bod adolygiadau herio gwasanaethau'r Cyngor a mesurau eraill i hunan-arfarnu ei berfformiad yn gadarn;

- Bod gwaith y Cyngor i gynllunio ar gyfer gwella a'i drefniadau i gefnogi gwelliant yn dda;

- Bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

Os oes gan SAC bryderon sylweddol ynghylch y cynnydd a wneir gan y Cyngor neu'r cyfeiriad y mae'n symud ynddo, bydd yn gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer newid. Nid yw adroddiad Sir Ddinbych yn cynnwys unrhyw argymhellion ffurfiol eleni (nid yw erioed wedi cynnwys rhai a dweud y gwir) sy'n adlewyrchu safbwynt cadarnhaol SAC am gynnydd y Cyngor.

Nid yw hynny'n golygu ein bod yn gwneud popeth yn iawn serch hynny; mae'n anochel bod angen mwy o waith ar rai pethau ac mae adroddiad eleni, fel adroddiad y llynedd, yn gwneud 'cynigion ar gyfer gwella'. Rydym wedi gwneud cynnydd da gyda'r holl gynigion a wnaed yn adroddiad 2012/13 ac eleni mae'r arolygwyr wedi gwneud dau gynnig pellach a fydd, yn eu tyb hwy, yn helpu'r Cyngor i barhau i wneud cynnydd. Y rhain yw:

- C1 – *Er mwyn cyflawni ei amcan i foderneiddio gwasanaethau dylai'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â gwendidau yn ei Wasanaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol*.

- C2 – *Dylai'r Cyngor sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'n eglur i gyflawni'r amcan o ran tai fforddiadwy.*

Mae'r Cyngor yn derbyn y ddau gynnig yma ac mae eisoes yn gweithredu i fynd i'r afael â hwy. O ran y cynnig sy'n ymwneud â'r gwasanaeth Adnoddau Dynol, rydym yn parhau i weithio trwy gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r diffygion a adnabuwyd. O ran y mater sy'n ymwneud â thai fforddiadwy, mae grŵp tasg o aelodau a Swyddogion allweddol yn cael ei sefydlu i adolygu ein hamcanion yn y maes pwysig yma.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes penderfyniad yn ofynnol, ond mae adolygiad SAC o gynnydd y Cyngor yn rhan bwysig o ddeall ein cynnydd tuag at gyflawni ein Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes goblygiadau ariannol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar y penderfyniad. Dylid atodi templed Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau fel atodiad wrth yr adroddiad.**

Ddim yn berthnasol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gwblhawyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Mae swyddogion wedi adolygu'r adroddiad o safbwynt cywirdeb cyn ei gyhoeddi. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Gorffennaf.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ddim yn ofynnol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

Byddai risg i'r Cyngor pe na bai'n gweithredu ar y cynigion ar gyfer gwella a wnaed gan SAC.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Nid oes penderfyniad yn ofynnol.